



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2020 Rhif 514 (Cy. 121)**

**2020 No. 514 (W. 121)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES**

Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio  
(Addasiadau a Datgymhwyso Dros  
Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

The Planning Applications  
(Temporary Modifications and  
Disapplication) (Wales)  
(Coronavirus) Order 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 ("Gorchymyn 2012") a Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 ("Gorchymyn 2016"). Mae'n mewnosod darpariaethau yn y Gorchymynion hynny sy'n addasu neu'n datgymhwyso gofynion penodol mewn perthynas â'r cyfnod sy'n dechrau ar 19 Mai 2020 ac sy'n dod i ben ar 18 Medi 2020.

Mae erthygl 2 yn mewnosod erthygl 2G newydd yng Ngorchymyn 2012. Mae erthygl 2G yn addasu Rhan 1A o Orchymyn 2012, sy'n gwneud darpariaeth ynghylch yr ymgynghoriad y mae rhaid ei gynnal cyn gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad mawr.

Mae'r erthygl 2G(3) newydd yn addasu erthygl 2C o Orchymyn 2012 fel bod gofyniad i roi'r dogfennau ar gael ar wefan ac ar ffurf copi caled ar gais wedi ei roi yn lle'r gofyniad i roi gwybodaeth sy'n gysylltiedig â chais cynllunio arfaethedig ar gael yn lleol i'w harchwilio. Er mwyn adlewyrchu hynny, darperir ffurf addasedig o'r hysbysiad y mae rhaid ei osod ar neu gerllaw'r tir y mae'r cais arfaethedig yn ymwneud ag ef a'i anfon at berchnogion a meddianwyr tir cyffiniol. Mae'r un ffurf addasedig o'r hysbysiad i'w defnyddio i hysbysu ymgynghoreion cymunedol o dan erthygl 2D o Orchymyn 2012.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Order)*

This Order amends the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012 ("the 2012 Order") and the Developments of National Significance (Procedure) (Wales) Order 2016 ("the 2016 Order"). It inserts provisions into those Orders which modify or disapply certain requirements in relation to the period starting on 19 May 2020 and ending on 18 September 2020.

Article 2 inserts a new article 2G into the 2012 Order. Article 2G modifies Part 1A of the 2012 Order, which makes provision about the consultation that must be carried out before making an application for planning permission for major development.

The new article 2G(3) modifies article 2C of the 2012 Order so that the requirement to make information associated with a proposed planning application available locally for inspection, is replaced with a requirement to make the documents available on a website and in hard copy on request. To reflect that, a modified form of the notice that must be placed on or near the land to which the proposed application relates and sent to owners and occupiers of adjoining land is provided. The same modified form of notice is to be used to notify community consultees under article 2D of the 2012 Order.

Mae'r erthygl 2G(4) newydd yn addasu erthygl 2C o Orchymyn 2012 i ddarparu, os gofynnwyd am gopïau caled o unrhyw ddogfennau, na chaniateir cyflwyno cais cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau â'r diwrnod yr anfonir y ddogfen olaf.

Mae'r erthygl 2G(7) newydd yn addasu erthygl 2F o Orchymyn 2012 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad ar ymgynghoriad cyn-ymgeisio gynnwys cadarnhad bod y gofynion addasedig i roi gwybodaeth am y cais arfaethedig ar gael ar wefan ac i ddarparu copïau caled o'r wybodaeth honno pan ofynnir amdanynt wedi eu bodloni. Mae datganiad yn cadarnhau pa un a ofynnwyd am gopïau caled ai peidio i'w gynnwys hefyd.

Mae erthygl 3 yn gwneud newidiadau i erthygl 16 o Orchymyn 2012 er mwyn estyn yr amser sydd gan gynghorau cymuned i ymateb pan gânt eu hysbysu am gais cynllunio, o 14 o ddiwrnodau i 21 o ddiwrnodau.

Mae erthygl 4 yn datgymhwyso'r gofyniad yn erthygl 12 o Orchymyn 2016 i berson adneuo copi caled o gais am ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad o arwyddocâd cenedlaethol gyda Gweinidogion Cymru a'r Awdurdod Cynllunio Lleol pan wneir y cais gan ddefnyddio cyfathrebiadau electronig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn [www.llyw.cymru](http://www.llyw.cymru).

The new article 2G(4) modifies article 2C of the 2012 Order to provide that if hard copies of any documents have been requested, an application must not be submitted before the end of the period of 14 days beginning with the day on which the last document is sent.

The new article 2G(7) modifies article 2F of the 2012 Order to require a pre-application consultation report to include confirmation that the modified requirements to make information about the proposed application available on a website and to provide hard copies of such information where requested have been discharged. A statement confirming whether hard copies have been requested is also to be included.

Article 3 makes changes to article 16 of the 2012 Order to extend the time that community councils have to respond when notified of a planning application, from 14 days to 21 days.

Article 4 disapplies the requirement in article 12 of the 2016 Order for a person to deposit a hard copy of an application for planning permission for development of national significance with the Welsh Ministers and the Local Planning Authority when making the application using electronic communications.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on the Welsh Government website at [www.gov.wales](http://www.gov.wales).

**2020 Rhif 514 (Cy. 121)**

**CYNLLUNIO GWLAD A  
THREF, CYMRU**

**Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio  
(Addasiadau a Datgymhwyso Dros  
Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020**

<i>Gwnaed</i>		<i>15 Mai 2020</i>
<i>Gosodwyd Cymru</i>	<i>gerbron</i>	<i>Senedd 18 Mai 2020</i>
<i>Yn dod i rym</i>		<i>19 Mai 2020</i>

**2020 No. 514 (W. 121)**

**TOWN AND COUNTRY  
PLANNING, WALES**

**The Planning Applications  
(Temporary Modifications and  
Disapplication) (Wales)  
(Coronavirus) Order 2020**

<i>Made</i>		<i>15 May 2020</i>
<i>Laid before Senedd Cymru</i>		<i>18 May 2020</i>
<i>Coming into force</i>		<i>19 May 2020</i>

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 61Z(8) a (9), 62(11), 62R a 333(4B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1), a thrwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 59, 62(1) a (2), 71(1), (2)(a) a (2A), a 333(7) o'r Ddeddf honno(2) sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(3) (fel y'u cymhwysir yn achos adran 62(1) gydag addasiadau gan Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 61Z(8) and (9), 62(11), 62R and 333(4B) of the Town and Country Planning Act 1990(1), and in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 59, 62(1) and (2), 71(1), (2)(a) and (2A), and 333(7) of that Act(2) now exercisable by them(3) (as applied in the case of section 62(1) with modifications by the Developments

- 
- (1) 1990 p. 8. Mewnosodwyd adran 61Z gan adran 17(2) o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015 (decc 4) ("Deddf 2015"). Mewnosodwyd adran 62(11) gan adran 17(3) o Ddeddf 2015 (gweler hefyd adran 59(4) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990") (y cyfeirir ati yn y troednodyn nesaf) sy'n darparu mai ystyr gorchymyn datblygu mewn perthynas â Chymru yw gorchymyn datblygu a wneir gan Weinidogion Cymru). Mewnosodwyd adran 62R gan adran 25 o Ddeddf 2015. Amnewidiwyd adran 333(4B) gan adran 55 o Ddeddf 2015 a pharagraff 6(3) o Atodlen 7 iddi. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.
- (2) Diwygiwyd adran 59(2) gan adran 1 o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013 (p. 27) a pharagraff 4 o Atodlen 1 iddi, a chan adran 27 o Ddeddf 2015 a pharagraff 3 o Atodlen 4 iddi. Mewnosodwyd adran 59(4) gan adran 55 o Ddeddf 2015 a pharagraff 5 o Atodlen 7 iddi. Gweler adran 71(4) am ystyr "prescribed". Diwygiwyd adran 71 gan adran 16(2) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.
- (3) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672); gweler y cofnod yn Atodlen 1 ar gyfer Deddf 1990. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.

- 
- (1) 1990 c. 8. Section 61Z was inserted by section 17(2) of the Planning (Wales) Act 2015 (anaw 4) ("the 2015 Act"). Section 62(11) was inserted by section 17(3) of the 2015 Act (see also section 59(4) of the Town and Country Planning Act 1990 ("the 1990 Act") (referred to in the next footnote) which provides a development order in relation to Wales means a development order made by the Welsh Ministers). Section 62R was inserted by section 25 of the 2015 Act. Section 333(4B) was substituted by section 55 of, and paragraph 6(3) of Schedule 7 to, the 2015 Act. There are other amendments which are not relevant to this instrument.
- (2) Section 59(2) was amended by section 1 of, and paragraph 4 of Schedule 1 to, the Growth and Infrastructure Act 2013 (c. 27) and by section 27 of, and paragraph 3 of Schedule 4 to, the 2015 Act. Section 59(4) was inserted by section 55 of, and paragraph 5 of Schedule 7 to, the 2015 Act. For the meaning of "prescribed" see section 71(4). Section 71 was amended by section 16(2) of the Planning and Compensation Act 1991 (c. 34). There are other amendments which are not relevant to this instrument.
- (3) The functions of the Secretary of State so far as exercisable in relation to Wales, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672); see the entry in Schedule 1 for the 1990 Act. The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraphs 30 and 32 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) 2016(1)), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

### Enwi a chychwyn

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Cymru) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Mai 2020.

### Ymgynghori cyn ymgeisio: rhoi gwybodaeth ar gael

2.—(1) Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(2) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl erthygl 2F mewnosoder—

#### “Coronafeirws: addasu'r Rhan hon dros dro

2G.—(1) Mae'r Rhan hon yn gymwys gyda'r addasiadau a nodir yn yr erthygl hon pan fydd—

- (a) pob un o'r hysbysiadau y mae erthyglau 2C(1)(a) a 2D(2) yn ei gwneud yn ofynnol i'r ceisydd eu rhoi mewn perthynas â chais arfaethedig yn cael eu rhoi ar ôl dechrau cyfnod yr argyfwng, a
- (b) o leiaf un o'r hysbysiadau hynny yn cael ei roi cyn diwedd cyfnod yr argyfwng.

(2) Yn yr erthygl hon, ystyr “cyfnod yr argyfwng” yw'r cyfnod—

- (a) sy'n dechrau gyda 19 Mai 2020, a
- (b) sy'n dod i ben gyda 18 Medi 2020.

(3) Mae erthygl 2C(1) yn cael effaith fel pe bai—

- (a) yn is-baragraff (b), “rhoi'r wybodaeth ganlynol ar gael ar wefan” wedi ei roi yn lle “rhoi'r wybodaeth ganlynol ar gael i'w harchwilio mewn lleoliad yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig”;
- (b) y canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (b)—

“ac

of National Significance (Application of Enactments) (Wales) Order 2016(1)), make the following Order.

### Title and commencement

1.—(1) The title of this Order is the Planning Applications (Temporary Modifications and Disapplication) (Wales) (Coronavirus) Order 2020.

(2) This Order comes into force on 19 May 2020.

### Pre-application consultation: making information available

2.—(1) The Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012(2) is amended as follows.

(2) After article 2F insert—

#### “Coronavirus: temporary modifications of this Part

2G.—(1) This Part applies with the modifications set out in this article where—

- (a) each of the notices that articles 2C(1)(a) and 2D(2) require an applicant to give in relation to a proposed application is given after the start of the emergency period, and
- (b) at least one of those notices is given before the end of the emergency period.

(2) In this article, “the emergency period” means the period—

- (a) beginning with 19 May 2020, and
- (b) ending with 18 September 2020.

(3) Article 2C(1) has effect as if—

- (a) in sub-paragraph (b), for “making the following information available for inspection at a location in the vicinity of the proposed development” there were substituted “making the following information available on a website”;
- (b) after sub-paragraph (b) there were inserted—

“and

(1) O.S. 2016/54 (Cy. 24).

(2) O.S. 2012/801 (Cy. 110), a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/59 (Cy. 29) ac O.S. 2017/567 (Cy. 136); mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

(1) S.I. 2016/54 (W. 24).

(2) S.I. 2012/801 (W. 110), amended by S.I. 2016/59 (W. 29) and S.I. 2017/567 (W. 136); there are other amending instruments but none is relevant.

(c) anfon copïau caled o'r dogfennau y cyfeirir atynt yn is-baragraff (b) at unrhyw berson sy'n gofyn amdanynt, pan ofynnir amdanynt o fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau a grybwyllir yn yr is-baragraff hwnnw."

(4) Mae erthygl 2C yn cael effaith fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl paragraff (3)—

"(3A) Os gofynnwyd am gopïau caled o unrhyw ddogfennau fel y crybwyllir ym mharagraff (1)(c), ni chaniateir cyflwyno cais cyn diwedd y cyfnod o 14 o ddiwrnodau sy'n dechrau gyda'r diwrnod yr anfonir y ddogfen olaf yn unol â'r paragraff hwnnw."

(5) Mae erthygl 2C(5) yn cael effaith mewn perthynas â phob hysbysiad a roddir gan y ceisydd o dan erthygl 2C(1)(a) fel pe bai'r cyfeiriad at Atodlen 1B yn gyfeiriad at Atodlen 1D.

(6) Mae erthygl 2D(5)(a) yn cael effaith mewn perthynas â phob hysbysiad a roddir gan y ceisydd o dan erthygl 2D(2) fel pe bai'r cyfeiriad at Atodlen 1B yn gyfeiriad at Atodlen 1D.

(7) Mae erthygl 2F(2) yn cael effaith fel pe bai'r canlynol wedi ei fewnosod ar ôl is-baragraff (c)—

"(ca) datganiad bod yr wybodaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (b) o erthygl 2C(1) wedi ei rhoi ar gael yn unol â'r is-baragraff hwnnw;

(cb) datganiad yn nodi pa un a ofynnwyd am gopïau caled o unrhyw ddogfennau fel y crybwyllir yn is-baragraff (c) o erthygl 2C(1) ac, os felly, datganiad bod y copïau caled wedi eu hanfon yn unol â'r is-baragraff hwnnw;"

(3) Ar ôl Atodlen 1C mewnosoder Atodlen 1D a nodir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(c) sending hard copies of the documents referred to in subparagraph (b) to any person who requests them, where the request is made within the period of 28 days mentioned in that subparagraph."

(4) Article 2C has effect as if after paragraph (3) there were inserted—

"(3A) If hard copies of any documents have been requested as mentioned in paragraph (1)(c), an application must not be submitted before the end of the period of 14 days beginning with the day on which the last document is sent in accordance with that paragraph."

(5) Article 2C(5) has effect in relation to each notice given by the applicant under article 2C(1)(a) as if the reference to Schedule 1B were to Schedule 1D.

(6) Article 2D(5)(a) has effect in relation to each notice given by the applicant under article 2D(2) as if the reference to Schedule 1B were to Schedule 1D.

(7) Article 2F(2) has effect as if after subparagraph (c) there were inserted—

"(ca) a declaration that the information referred to in subparagraph (b) of article 2C(1) was made available in accordance with that subparagraph;

(cb) a statement setting out whether hard copies of any documents were requested as mentioned in subparagraph (c) of article 2C(1) and, if so, a declaration that the hard copies were sent in accordance with that subparagraph;"

(3) After Schedule 1C insert Schedule 1D set out in the Schedule to this Order.

### **Cyfnod i gynghorau cymuned wneud sylwadau ar geisiadau**

3. Yn erthygl 16 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, ar ôl paragraff (3) mewnosoder—

“(4) Pan fo cyngor cymuned yn cael ei hysbysu am gais yn ystod cyfnod yr argyfwng, mae paragraffau (1) a (2)(c) yn cael effaith fel pe bai'r cyfeiriadau at 14 o ddiwrnodau yn gyfeiriadau at 21 o ddiwrnodau.

(5) Ym mharagraff (4), mae i “cyfnod yr argyfwng” yr ystyr a roddir gan erthygl 2G(2).”

### **Datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: gwneud ceisiadau**

4. Yn erthygl 12 o Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016(1), ar ôl paragraff (6) mewnosoder—

“(6A) Nid yw paragraffau (5) a (6) yn gymwys i gais a wneir yn ystod y cyfnod—

(a) sy'n dechrau gyda 19 Mai 2020, a

(b) sy'n dod i ben gyda 18 Medi 2020.”

### **Period for community councils to make representations on applications**

3. In article 16 of the Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012, after paragraph (3) insert—

“(4) Where the council of a community are notified of an application during the emergency period, paragraphs (1) and (2)(c) have effect as if the references to 14 days were to 21 days.

(5) In paragraph (4), “the emergency period” has the meaning given by article 2G(2).”

### **Developments of national significance: making applications**

4. In article 12 of the Developments of National Significance (Procedure) (Wales) Order 2016(1), after paragraph (6) insert—

“(6A) Paragraphs (5) and (6) do not apply to an application made during the period—

(a) beginning with 19 May 2020, and

(b) ending with 18 September 2020.”

*Julie James*

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o  
Weinidogion Cymru  
15 Mai 2020

Minister for Housing and Local Government, one of  
the Welsh Ministers  
15 May 2020

---

(1) O.S. 2016/55 (Cy. 25), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

---

(1) S.I. 2016/55 (W. 25), to which there are amendments which are not relevant to this Order.

Hysbysiad cyn-ymgeisio ar gyfer cyfnod yr argyfwng

“ATODLEN 1D Erthygl 2G

CYHOEDDUSRWYDD AC YMGYNGHORI CYN GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO: HYSBYSIAD I’W ROI YN YSTOD CYFNOD YR ARGYFWNG

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012

CYHOEDDUSRWYDD AC YMGYNGHORI CYN GWNEUD CAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO

HYSBYSIAD O DAN ERTHYGLAU 2C a 2D FEL Y’U HADDASWYD GAN ERTHYGL 2G

(i’w gyflwyno i berchnogion a/neu feddianwyr tir cyffiniol ac ymgylgoreion cymunedol; ac i’w arddangos drwy hysbysiad safle ar neu gerllaw lleoliad y datblygiad arfaethedig)

**Diben yr hysbysiad hwn:** mae’r hysbysiad hwn yn rhoi cyfle i wneud sylwadau yn uniongyrchol i’r datblygwr ynglŷn â datblygiad arfaethedig cyn cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio i’r awdurdod cynllunio lleol (“ACLI”). Bydd unrhyw gais cynllunio dilynol yn cael ei hysbysebu gan yr ACLI perthnasol; ni fydd unrhyw sylwadau a ddarperir mewn ymateb i’r hysbysiad hwn yn lleihau dim ar eich gallu i gyflwyno sylwadau i’r ACLI ar unrhyw gais cynllunio cysylltiedig. Dylech nodi y gellir gosod unrhyw sylwadau a gyflwynir gennych yn y ffeil gyhoeddus.

Datblygiad arfaethedig yn (a) .....

**Rwyf yn hysbysu bod** (b) .....

yn bwriadu gwneud cais am ganiatâd cynllunio i (c): .....

Gallwch weld copïau o’r canlynol:

- y cais arfaethedig;
- y planiau; a
- dogfennau ategol eraill

ar-lein yn (d) .....

Os nad ydych yn gallu cael mynediad at y dogfennau yn electronig gallwch ofyn am gopïau o’r wybodaeth hon drwy anfon e-bost at (e)..... neu drwy ffonio’r ceisydd ar (f).....

Rhaid i unrhyw un sy’n dymuno gwneud sylwadau ynglŷn â’r datblygiad arfaethedig hwn ysgrifennu at y ceisydd/yr asiant yn (e) ..... neu (g)

.....  
erbyn (h) .....

Llofnod: .....

Dyddiad: .....

Mewnosoder:

- a) cyfeiriad neu leoliad y datblygiad arfaethedig
- b) enw'r ceisydd
- c) disgrifiad o'r datblygiad arfaethedig
- d) cyfeiriad y wefan
- e) cyfeiriad e-bost y ceisydd/yr asiant
- f) rhif ffôn y ceisydd/yr asiant
- g) cyfeiriad y ceisydd
- h) dyddiad gan ganiatáu cyfnod o 28 o ddiwrnodau, gan ddechrau gyda'r dyddiad cyflwyno a chyhoeddi

©<sup>©</sup>Hawlfraint y Goron 2020

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.



SCHEDULE Article 2(3)

Pre-application notice for emergency period

“SCHEDULE 1D Article 2G

PUBLICITY AND CONSULTATION BEFORE APPLYING FOR PLANNING PERMISSION: NOTICE TO BE GIVEN DURING EMERGENCY PERIOD

Town and Country Planning (Development Management Procedure) (Wales) Order 2012

PUBLICITY AND CONSULTATION BEFORE APPLYING FOR PLANNING PERMISSION

NOTICE UNDER ARTICLES 2C AND 2D AS MODIFIED BY ARTICLE 2G

(to be served on owners and/or occupiers of adjoining land and community consultees; and displayed by site notice on or near the location of the proposed development)

**Purpose of this notice:** this notice provides the opportunity to comment directly to the developer on a proposed development prior to the submission of a planning application to the local planning authority (“LPA”). Any subsequent planning application will be publicised by the relevant LPA; any comments provided in response to this notice will not prejudice your ability to make representations to the LPA on any related planning application. You should note that any comments submitted may be placed on the public file.

Proposed development at (a) .....

**I give notice that** (b) .....

is intending to apply for planning permission to (c): .....

You may inspect copies of:

- the proposed application;
- the plans; and
- other supporting documents

online at (d) .....

If you are unable to access the documents electronically you may request copies of this information by emailing (e)..... or by telephoning the applicant on (f).....

Anyone who wishes to make representations about this proposed development must write to the applicant/agent at (e) ..... or (g) ..... by (h) .....

Signed: .....

Date: .....

Insert:

- a) address or location of the proposed development
- b) applicant's name
- c) description of the proposed development
- d) address of website
- e) email address of the applicant/agent
- f) telephone number of applicant/agent
- g) address of the applicant
- h) date giving a period of 28 days, beginning with the date of service and publication

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.



£6.90

W202005151005 05/2020

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2020/514>

ISBN 978-0-348-20559-6



9 780348 205596